# YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1983

*Ceisiadau sy'n ymwneud ag effaith niweidiol cartrefi symudol ar amwynder y safle*

**54.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (penderfyniad gan dribiwnlys ynghylch effaith niweidiol cartref symudol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd i'r meddiannydd gan berchennog y safle, sy'n hysbysu'r meddiannydd o fwriad perchennog y safle i wneud cais o dan baragraff 5A(2) o Bennod 2 o Ran 1 o'r Atodlen honno;

(b) unrhyw adroddiad sydd wedi ei baratoi, sy'n disgrifio cyflwr y cartref symudol; ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n cefnogi'r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r meddiannydd.